



Centre for Alternative Technology Canolfan y Dechnoleg Amgen

Defnyddiau a chynllunio

Yma, yn y Ganolfan, pan fyddwn yn dewis defnyddiau, byddwn yn meddwl am sawl peth:

Dylent gael eu cynhyrchu mor lleol ag y bo modd fel y bydd cyn lleied o ynni ag sy'n bosib yn cael ei ddefnyddio wrth eu cludo

Dylent ddefnyddio cyn lleied o ynni ag y bo modd yn y broses gynhyrchu (ynni ymgorfforedig)

Ni ddylent fod yn niweidiol i iechyd (yr adeiladwyr na'r defnyddwyr)

Dylent fod yn adnewyddadwy gan ddefnyddio adnodd meidraidd)

Dylent fod yn ddeniadol yn weledol

Rhaid eu bod yn cyflawni'r dasg angenrheidiol

Yn ymarferol, nid yw hi bob amser yn bosibl cyflawni'r meini prawf. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n rhaid i chi flaenoriaethu a phenderfynu beth sy'n hanfodol.

Cymerwch gip ar Dwll y Dwyrches Ddaear. Pa ddefnyddiau sydd wedi'u defnyddio i wneud y twll ei hun a'r modelau?

Sut mae'r defnyddiau ar gyfer y modelau'n gweddu ein meini prawf?

Edrychwch ar y dwrches ei hun. O ba ddefnydd mae hi wedi'i gwneud? Meddyliwch am fanyleb gynllunio ar ei chyfer. Oes yna ddefnydd y gallen fod wedi'i ddefnyddio y byddai wedi gweddu'r holl feini prawf uchod?

Byddwn yn defnyddio coed yn aml mewn adeiladau ac arddangosfeydd. Sut mae hyn yn gweddu'r meini prawf uchod?

(Yn yr ardal hon, gallwn gael pob math o goed yn lleol o blanhigfeydd lle'r ydym yn gwybod bod y coed yn cael ei ailblannu)

Os bydd coed yn cael ei ddefnyddio fel hyn, beth yw'r effaith ar y cylchred carbon? Beth fydd ei effaith ar faint o CO₂ sydd yn yr atmosffer?

Edrychwch ar arddangosfa'r biniau compost. Beth sydd o blaid ac yn erbyn y gwahanol gynlluniau sydd yma, yn enwedig mewn perthynas â'r defnyddiau sy'n cael eu defnyddio?

Cyn i'r Ganolfan gael ei datblygu yma, hen domen lechi oedd y safle gydag ychydig goed, heb unrhyw lynnoedd, ac, yn wir, heb bridd.

Mae popeth sydd yma (yr adeiladau, yr arddangosfeydd a'r gerddi) wedi'i gynllunio ar gyfer y cyd-destun penodol yma, gan staff y Ganolfan yn bennaf. Mae rhai pethau wedi'u cynllunio i edrych yn "naturiol" iawn, fel y llyn sy'n gronfa i'r rheilffordd.

Dewiswch rywbeth ar y safle (arddangosfa, nodwedd neu adeilad) a'i ailgynllunio er mwyn iddo wneud ei waith yn well, naill ai o ran y defnyddiau a ddefnyddir, effeithiolrwydd neu estheteg. Dylech gofio bod cost yn ffactor pwysig. (Gallech wneud rhai nodiadau ar gyfer hyn yn awr, gan barhau'r broses gynllunio yn nes ymlaen).

Nid yw'r dechnoleg a ddefnyddir yn y Ganolfan i gyd yn "uwch-" nac yn "is-", ond yn "briodol" neu'n "addas". Enghraifft o "uwch" dechnoleg yw rheilffordd ddŵr gytbwys y glogwyn. Sut mae'r dechnoleg sy'n cael ei defnyddio, yn dechnoleg briodol?

Enghraifft o "is" dechnoleg yw'r hydram (ger yr arddangosfa ynglŷn â chynhesu dŵr solar). Sut mae'r dechnoleg sy'n cael ei defnyddio yma yn dechnoleg briodol?

Gwaith dilynol ar gynllunio - Cynlluniwch gartref cynaliadwy, delfrydol.